Ysgol Gynradd Melin Gruffydd

Rhifyn 2 Tachwedd 2009 November

Cylchlythyr/Newsletter

www.ygmg.com

Y Faner Werdd / ECO Schools Award

Yn sgil asesiad allanol, mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Melin Gruffydd wedi ei dyfarnu yn ysgol ECO am ei gwaith yn ymwneud â'r amgylchedd, cynaliadwy a chadwraeth. Llongyfarchiadau mawr hefyd i'r Cyngor ECO am eu gwaith yn hyn o beth.

We are delighted to announce that following an external assessment, Melin Gruffydd has been awarded ECO School status for its work in environmental, sustainability and conservation matters. Congratulations to everyone involved and to the school's ECO committee for coordinating many ECO activities.

Dragons Den

Da iawn i'r holl blant a fu'n cystadlu yn Dragons Den Melin Gruffydd. Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal y digwyddiad yma ac roedd yn llwyddiant ysgubol. Dangosodd y plant nifer helaeth o sgiliau yn cynnwys llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a dealltwriaeth dda wrth gynllunio eu cynnyrch. Cafwyd syniadau a chyflwyniadau graenus ac aeddfed, ac anodd iawn oedd hi y Mr Mark Soanes, (y ddraig!) o gwmni Call of the Wild, i ddewis enillydd. Enillwyr Dragons Den Melin Gruffydd 2009 yw Elin Hawkey a Catrin Williams am gynllunio 'Cute and Elegant Cards'. Mi fydd eu dosbarth yn cynhyrchu'r cardiau yma yn ystod yr wythnosau nesaf, eu gwerthu ac yna rhoi'r elw i achos da. Heb os, mi fydd y gystadleuaeth yma yn cael ei chynnal eto yn 2010. Diolch i gwmni Call of the Wild (www.callofthewild.co.uk) am wobrwyo'r buddugwyr trwy roi diwrnod o weithgareddau awyr agored iddynt.

Well done to all the pupils who recently took part in the Melin Gruffydd Dragons Den. This was the first time that event was held in school and it was a resounding success! The children displayed many skills including literacy, numeracy, ICT and good understanding when pitching their ideas which were polished and mature. Choosing a winner was certainly a difficult decision for Mr Mark Soanes, our dragon, from Call of the Wild. The winners chosen were Elin Hawkey and Catrin Williams for pitching their idea—Cute and Elegant cards. Their class will now produce the winning product, they will sell them with all proceeds being donated to local charities. This event will certainly be held again in 2010!Thanks to Call of the Wild (www.callofthewild.co.uk) for awarding a prize to the winners – a day's activity with the company.

Y Ffair Nadolig / Xmas Fayre

Cynhelir y ffair Nadolig eleni ar ddydd Gwener, Rhagfyr yr 11eg. Bydd hwn hefyd yn ddiwrnod 'myffti' (dim gwisg ysgol).

This year's Xmas Fayre will be held on Friday, December 11th. This will also be a mufty day (no school uniform).

Perfformiadau'r Nadolig / Christmas performances

Mi fydd disgyblion Melin Gruffydd yn canu carolau yn y gymuned eleni (manylion i ddilyn).

The pupils of Melin Gruffydd will be carol singing in the local community this year (details to follow).

Siopa Nadolig / Christmas Shopping

Os ydych am siopa ar-lein am nwyddau ar gyfer y Nadolig, cofiwch ei bod hi'n bosib i chi wneud hynny drwy glicio ar y botwm **'buy.at'** sydd ar dudalen flaen gwefan yr ysgol www.ygmg.com. Wrth wneud hynny, mi fydd cyfraniadau ariannol yn cael eu rhoi i'r ysgol gan y siopau/cwmnioedd.

If you will be doing some of your Christmas shopping online this year, please remember it is possible to do so by clicking on the 'buy.at' logo on the school's home webpage www.ygmg.com. By doing so, shops and companies will be providing financial contributions /commission to the school.

(Dyddiadau / Dates—Trosodd/PTO)